

CYNGOR SIR Y FFLINT
DYDD MERCHER, 9 MEDI 2020

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol rhithiol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 9 Medi, 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Dennis Hutchinson, Colin Legg, Tim Roberts, ac Andy Williams.

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd; Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a'r Cynghorydd Barchedig Daniel Stroud yn darllen y weddi.

Cyn dechrau'r cyfarfod gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn munud o dawelwch fel teyrnged i ddiodefwyr pandemig Covid 19 a'u teuluoedd. Talodd deyrnged i'r GIG, y gwirfoddolwyr o'r holl wasanaethau, a gweithwyr Cyngor Sir y Fflint a oedd wedi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ystod yr argyfwng.

1. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

2. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Hysbysodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru, yn sgil yr ymateb i'r coronafeirws, wedi pasio deddfwriaeth frys yn galluogi Cynghorau i ohirio cyfarfodydd blynyddol. I gydnabod yr anawsterau wrth gynnal cyfarfodydd o bell, bu i'r ddeddfwriaeth honno hefyd ganiatáu i Gynghorau ymestyn cyfnodau deiliaid swyddi i fis Mai 2021.

Cynigiwyd, gyda'u cytundeb, bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd presennol yn parhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021 pan fydd hi'n bosibl cynnal cyfarfod blynyddol gyda'r lefel briodol o seremoni.

Bachodd y Cadeirydd ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Is-Gadeirydd am ei gefnogaeth a'i gydweithrediad o ran y trefniadau arfaethedig ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gydag Arweinwyr Grŵp a dywedodd eu bod wedi dod i gytundeb, gyda chefnogaeth y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, i dderbyn y trefniant arfaethedig.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cynghorwyr Marion Bateman a Joe Johnson yn parhau yn eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd tan fis Mai 2021.

3. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigodd y Cynghorydd Michelle Perfect y dylid penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor 2020/21, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Hughes. Siaradodd y Cynghorydd Hughes o blaid y cynnig gan dalu teyrnged i'r Cynghorydd Roberts a'i rinweddau personol a'i gyflawniadau yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Siaradodd hefyd am ei waith diwro yn ystod pandemig y Coronafeirws i sicrhau'r canlyniad gorau posibl wrth ddarparu gwasanaethau i holl breswylwyr Sir y Fflint. Ni chafwyd enwebiadau eraill. Talodd yr Aelodau deyrngedau pellach i'r Cynghorydd Roberts o ran ei berfformiad a'i broffesiynoldeb rhagorol fel Aelod o'r Cyngor.

Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd y cynnig.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd Ian Roberts yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor 2020/21.

4. ARWEINYDD Y CYNGOR I BENODI'R CABINET

Diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Aelodau am ei ethol yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn y cyngor a dywedodd mai anrhydedd oedd derbyn y swydd. Siaradodd am y sefyllfa heriol a phrysur newidiol o ran pandemig y Coronafeirws ac am y gwytnwch a'r amynedd a ddangoswyd gan breswylwyr Sir y Fflint yn ystod y cyfnod digynsail diweddar a lleihad gwasanaethau. Diolchodd i holl weithwyr Sir y Fflint a oedd wedi cynnal darpariaeth gwasanaethau hanfodol gan y Cyngor yn ystod y pandemig, gan restru Gwasanaethau Stryd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thechnoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu fel enghreifftiau. Cyfeiriodd at y penderfyniadau anodd a oedd rhaid eu gwneud yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer Sir y Fflint.

Talodd y Cyngorydd Roberts deyrnged i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion a'u timau am eu perfformiad cadarn drwy gydol yr argyfwng. Siaradodd am yr angen i barhau i gymryd gofal a phwyll i atal ail don o'r pandemig yn y dyfodol agos.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, nododd y Cyngorydd Roberts ei ddewis o Gynghorwyr a fyddai'n gwasanaethu ar y Cabinet.

Diolchodd y Cyngorydd Roberts i Aelodau'r Cabinet am eu gwaith a'u cefnogaeth. Diolchodd hefyd i'r Cadeirydd, i'r Is-Gadeirydd a'r Arweinwyr Grŵp am eu hymgysylltiad i gynorthwyo'r Cyngor gyda'r broses gwneud penderfyniadau.

PENDERFYNWYD:

Bod y dewis o Gynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet, a'u portffolios a fanylir arnynt isod, yn cael eu nodi.

<u>Aelod Cabinet</u>	<u>Portffolio</u>
Ian Roberts	Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg
Carolyn Thomas	Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad
Glyn Banks	Aelod Cabinet Cyllid
Chris Bithell	Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Derek Butler	Aelod Cabinet Datblygu Economaidd
Dave Hughes	Aelod Cabinet Tai
Christine Jones	Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol
Billy Mullin	Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau

5. MATERION CYFANSODDIADOL: PWYLLGORAU A CHYRFF MEWNOL

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog (Llywodraethu) a ddeliodd â'r materion hynny sydd angen penderfynu arnynt yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir, yn unol â Rheol 1.1 (vii)-(xiv) Gweithdrefn y Cyngor. Rhannwyd yr adroddiad yn adrannau, pob un yn delio ag un penderfyniad oedd angen ei wneud a'r materion perthnasol i'w hystyried.

(i) Penodi Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyfansoddiad yn caniatáu penodi'r canlynol:

- Pwyllgor Archwilio;
- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd;
- Pwyllgor Cwynion;
- Pwyllgor Apeliadau Cwynion;
- Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu;
- Pwyllgor Cydlywodraethu (ar gyfer Pensiynau);

- Pwyllgor Trwyddedu;
- Pwyllgor Cynllunio;
- Pwyllgor Safonau;

Yn ogystal, roedd y Cyfansoddiad yn caniatáu ar gyfer penodi 6 Phwyllgor Trosolwg a Chraffu. Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2020, cytunodd y Cyngor i leihau'r nifer hwnnw i 5 yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu diwygiedig i'w gweld isod.

- Y Gymuned, Tai ac Asedau
- Adnoddau Corfforaethol
- Addysg, Ieuencid a Diwylliant
- Yr Amgylchedd a'r Economi
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Nodwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn Atodiad 1, fodd bynnag, eglurodd y Prif Swyddog fod angen gwneud diwygiad pellach i'r cylch gorchwyl gan fod Cynllunio Rhag Argyfwng, a'r Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn wedi cael eu cynnwys dan gwmpas y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi trwy gamgymeriad ac roedd angen eu symud i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ian Roberts yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ted Palmer.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Archwilio
 Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd
 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Y Gymuned, Tai ac Asedau
 Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd
 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuencid a Diwylliant
 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi
 Pwyllgor Cydlywodraethu (ar gyfer Pensiynau)
 Pwyllgor Trwyddedu
 Pwyllgor Cynllunio
 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
 Pwyllgor Safonau
 Pwyllgor Cwynion
 Pwyllgor Apeliadau Cwynion
 Pwyllgor Apeliadau
 Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

(ii) Pennu maint Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog fod rhaid penderfynu ar faint pob Pwyllgor yr oedd y Cyngor wedi'i benodi yn y Cyfarfod Blynyddol. Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, penderfynodd y Cyngor y dylid cael datrysiad cydbwysedd gwleidyddol newydd sy'n cyflawni gostyngiad cyffredinol yn nifer y lleoedd pwyllgor tra'n parhau i

ddarparu ar gyfer cynrychiolaeth yr holl grwpiau gwleidyddol ar bwyllgorau mawr y Cyngor. Nodwyd manylion y ddarpariaeth ar gyfer maint y Pwyllgorau yn yr adroddiad (yn amodol ar y cywiriadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fel yr eglurwyd yn yr eitem ar Benodi Pwyllgorau).

PENDERFYNWYD:

Bod maint pob pwyllgor yn unol â'r hyn a nodwyd ym mharagraffau 1.03 ac 1.04 yr adroddiad.

(iii) Cylch Gorchwyl Pwyllgorau

Eglurodd y Prif Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu ar gylch gorchwyl y Pwyllgorau a benodwyd ganddo. Dywedodd fod cylch gorchwyl y Pwyllgorau presennol wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad. Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o fewn y strwythur diwygiedig, ynghlwm fel atodiad 1. Cytunwyd y rhain gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Fodd bynnag, ailadroddodd y Prif Swyddog fod angen gwneud diwygiadau pellach i symud Cynllunio Rhag Argyfwng a'r Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn o gwmpas y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Byddai cylch gorchwyl newydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei gynnwys o fewn y Cyfansoddiad.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ian Roberts yr argymhellion yn yr adroddiad, yn amodol ar gwblhau'r diwygiadau uchod i'r cylch gorchwyl. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ted Palmer.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor fel y nodwyd yn y Cyfansoddiad a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn amodol ar symud Cynllunio Rhag Argyfwng, a'r Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

(iv) Cydbwysedd Gwleidyddol

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod yn rhaid i'r Cyngor benderfynu yn, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl, y Cyfarfod Blynyddol, ar ddyraniad seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'i diwygiwyd. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd y rheolau hyn yn berthnasol i'r Cabinet nac ychwaith i'r Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y pwyntiau allweddol fel sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Eglurodd, wrth ddyrannu cydbwysedd gwleidyddol, lle nad oedd rhai cynghorwyr mewn grŵp gwleidyddol, fod rhaid i'r Cyngor sicrhau fod cyfran o'r seddi yn cael eu dyrannu i'r cynghorwyr hynny. Dywedodd fod un Cynghorydd

heb grŵp gwleidyddol ar hyn o bryd a bod y ddarpariaeth ar gyfer yr Aelod hwnnw wedi'i nodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog, er mwyn cyrraedd cydbwysedd gwleidyddol, y bu'n angenrheidiol i wahanu'r pwyllgorau 'cyflogaeth', sef y Pwyllgorau, Cwynion, Apeliadau Cwynion ac Ymchwil a Disgyblu, neu fel arall byddai'r grwpiau gwleidyddol llai dan anfantais drwy orfod defnyddio rhan o'u dyraniad seddi ar gyfer pwyllgorau nad oeddent yn gorfod cyfarfod yn aml. Roedd y gwahaniad hwn yn gofyn am gytundeb penodol gan holl Aelodau'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Swyddog fod cyfanswm o 118 o seddi ar gyfer Cynghorwyr ar draws holl Bwyllgorau'r Cyngor yn seiliedig ar y grŵp presennol o aelodau. Roedd hawl pob grŵp i seddi wedi'i nodi ym mharagraff 1.14 yr adroddiad.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Carolyn Thomas yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Roberts. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am eglurhad o ran y cytundeb ychwanegol fod gan yr holl Aelodau, ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr hawl i fynychu a siarad yn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ond nid i bleidleisio. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y Cynghorydd Heesom wedi deall yn iawn a dywedodd fod hon yn ystyriaeth bwysig o ran lleihau maint y Pwyllgorau.

PENDERFYNWYD:

Bod y seddi yn cael eu dyrannu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad a'r rheolau ar aelodaeth y Pwyllgorau fel y nodwyd ym mharagraffau 1.08 - 1.14, a bod y seddi ar y Pwyllgorau Cwynion, Apeliadau Cwynion, ac Ymchwilio a Disgyblu, yn cael eu dyrannu i roi lledaeniad gwleidyddol eang o aelodaeth.

(v) Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael eu penodi gan wahanol gyrff, rhai ohonynt a oedd yn destun cyfyngiadau. Roedd y tabl ym mharagraff 1.16 yr adroddiad yn amlinellu pa gorff oedd yn penodi pa Gadeirydd a pha gyfyngiadau (os o gwbl) oedd yn berthnasol.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Hughes:

- Penodi'r Cynghorydd Ted Palmer yn Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd;

Cynigodd y Cynghorydd Mike Peers ddiwygiad bod y Cynghorydd Ralph Small yn cael ei benodi'n Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bob Connah.

Siaradodd y Cynghorwyr Bob Connah a Richard Jones o blaid enwebu'r Cynghorydd Ralph Small.

O'i roi i'r bleidlais, gwrthodwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Peers. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, a chafodd ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cynghorydd Ted Palmer i'r Aelodau am gefnogi ei enwebiad.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Dolphin:

- Penodi'r Cynghorydd Neville Phillips yn Gadeirydd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd.

Cynigodd y Cynghorydd Mike Peers ddiwygiad bod y Cynghorydd Arnold Woolley yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Helen Brown.

O'i roi i'r bleidlais, gwrthodwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Peers. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts, a chafodd ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cynghorydd Neville Phillips i'r Aelodau am gefnogi ei enwebiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Carolyn Thomas. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

- Penodi'r Cynghorydd Sharps yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.

Diolchodd y Cynghorydd Tony Sharps i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

- Penodi'r Cynghorydd Wisinger yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Diolchodd y Cynghorydd David Wisinger i'r Aelodau am yr enwebiad ac am eu cefnogaeth barhaus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y dyraniad aelodaeth, a oedd, yn ei farn ef, yn rhoi ei grŵp, yr ail grŵp mwyaf yn y Cyngor, dan anfantais a soniodd am yr angen i ddyrannu seddi yn deg ar draws yr holl grwpiau gwleidyddol.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylai'r Pwyllgor Cwynion, y Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu benodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodau ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell. Pan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

Eglurodd y Prif Swyddog fod Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, dan Fesur Llywodraeth Leol 2011, yn cael eu dewis gan y grwpiau gwleidyddol yn seiliedig ar gryfder y gwahanol grwpiau a oedd â seddi ar y Cabinet. Dyrannir swyddi Cadeiryddion i'r grwpiau gyda lle ar y Cabinet yn gyntaf a chaiff unrhyw hawl yn cael ei dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Yna, caiff y swyddi Cadeiryddion sy'n weddill eu dyrannu i grwpiau heb seddi ar y Cabinet, (gan

dalgrynnu i fyny i'r rhif llawn agosaf). Nodwyd y dyraniad o swyddi'r Cadeiryddion yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts y canlynol ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Carolyn Thomas.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Adnoddau Corfforaethol
Addysg, Ieuenctid a Diwylliant
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
Yr Amgylchedd a'r Economi
Y Gymuned, Tai ac Asedau

Grŵp i Ddewis Cadeirydd

Ceidwadwyr
Llafur (y Cynghorydd Dave Healey)
Democratiaid Rhyddfrydol
Y Gynghrair Annibynnol
Llafur (y Cynghorydd Ian Dunbar)

O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod Cadeiryddion y Pwyllgorau canlynol yn cael eu penodi (gan nodi unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd):

- Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd – y Cynghorydd Ted Palmer
- Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democratiaidd – y Cynghorydd Neville Phillips
- Pwyllgor Trwyddedu – y Cynghorydd Tony Sharps
- Pwyllgor Cynllunio – y Cynghorydd David Wisinger

(b) Bod y Pwyllgor Cwynion, y Pwyllgor Apeliadau Cwynion a'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn penodi eu Cadeiryddion eu hunain o blith eu haelodau;

(c) Bod y grwpiau canlynol yn cadeirio'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel yr amlinellwyd:

Adnoddau Corfforaethol
Addysg, Ieuenctid a Diwylliant
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
Yr Amgylchedd a'r Economi
Y Gymuned, Tai ac Asedau

Ceidwadwyr
Llafur (y Cynghorydd Dave Healey)
Democratiaid Rhyddfrydol
Y Gynghrair Annibynnol
Llafur (y Cynghorydd Ian Dunbar)

(vi) Swyddogaethau Dewis Lleol

Eglurodd y Prif Swyddog ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gytuno ar ran o'r fath o'r Cynllun Dirprwyo gan fod y Cyngor wedi penderfynu ei fod yn fater i'r Cyngor gytuno arno. Roedd hyn yn ymwneud â swyddogaethau dewis lleol y gellir eu penderfynu naill ai gan y Cyngor neu'r Cabinet ac / neu swyddogion dirprwyedig. Cafodd y tabl o Swyddogaethau Dewis Lleol ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y ddarpariaeth o fewn y Cyfansoddiad (swyddogaeth 20) i wneud taliadau i ddarparu iawndal mewn achosion o gamweinyddu a gofynnodd a fyddai modd cyflwyno taliadau o'r fath (taliadau mawr yn benodol) i'r Cyngor eu hystyried. Darparodd y Prif Swyddog eglurder o ran y swyddogaeth ac esboniodd fod taliadau o'r fath yn amrywio ond eu bod, yn

gyffredinol, ar gyfer symiau bach ac yn cael eu penderfynu ar lefel Prif Swyddog. Cydnabu'r pwynt a wnaed gan y Cynghorydd Peers sef y byddai trosolwg o'r gweithdrefnau yn ddefnyddiol, ac fe awgrymodd y gallai'r Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Safonau wneud hyn. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu adroddiadau anhysbys yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau (ddwywaith y flwyddyn) ar nifer yr achosion iawndal a chanlyniadau o ran setliadau anwirfoddol o fewn swyddogaeth 20 o'r Cyfansoddiad. Cymeradwyodd y Cynghorydd Mike Peers y cynnig ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Marion Bateman.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Roberts y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad, sef i gymeradwyo'r Swyddogaethau Dewis Lleol fel y nodwyd yn y Cyfansoddiad, ac eiliwyd hynny.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Swyddogaethau Dewis Lleol presennol fel y nodwyd yn y Cyfansoddiad; a
- (b) Darparu adroddiadau anhysbys yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau (ddwywaith y flwyddyn) ar nifer yr achosion iawndal a chanlyniadau o ran setliadau anwirfoddol o fewn swyddogaeth 20 o'r Cyfansoddiad.

(vii) Enwebu i Gyrff Mewnol

Eglurodd y Prif Swyddog fod y Cynllun Dirprwyo presennol yn darparu ar gyfer Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddogion haen gyntaf ac ail haen, yn cynnwys saith Aelod. Nid oedd hwn yn bwyllgor sefydlog a byddai'n cael ei gynnull pan fo angen drwy geisio enwebiadau gan Arweinwyr Grŵp. Argymhellwyd bod cyfansoddiad y Pwyllgor yn parhau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ted Palmer yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Dunbar.

PENDERFYNWYD:

Bod cyfansoddiad y Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gymeradwyo.

(viii) Pwyllgor Safonau

Amlinellodd y Prif Swyddog gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau a gofynnwyd i'r Aelodau nodi hyn.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ted Palmer yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Dunbar.

PENDERFYNWYD:

Bod cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cael eu nodi.

(ix) Penodiadau i Gyrff Allanol

Eglurodd y Prif Swyddog y bu i'r Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2017, benodi Aelodau i gyrff allanol ar gyfer tymor llawn y Cyngor. Rhoddodd hefyd bŵer i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp, wneud newidiadau i'r enwebiadau hynny fel y bo angen.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ted Palmer yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Ian Dunbar.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor yn nodi bod enwebeion i Gyrff Allanol wedi cael eu penodi ar gyfer tymor llawn y Cyngor a phŵer y Prif Weithredwr i amrywio'r enwebiadau hynny (mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp).

6. AMSERLEN O GYFARFODYDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2020/21 yn dilyn ymgynghoriad. O ran amserlen 2020/21, dywedodd fod cyfres o gyfarfodydd wedi'u cynnwys ym mis Medi er mwyn i'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried y Strategaeth Adfer a byddai'n rhaid cynnal cyfarfodydd arbennig yn yr hydref i ystyried cynigion ar gyfer Cyllideb 2021/22. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at gyfarfod y Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 17 Medi a dywedodd ei fod wedi cael ei ganslo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at ymweliadau â safleoedd cynllunio a dywedodd nad oeddent i'w gweld ar yr Amserlen o Gyfarfodydd ar gyfer 2020/21 ac fe awgrymodd y dylid eu cynnwys dros dro nes iddynt ailddechrau. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylid ychwanegu dyddiadau dros dro yr ymweliadau â safleoedd cynllunio at yr Amserlen. Esboniodd fod asesiad risg yn cael ei gynnal ar ymweliadau safle ac yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwnnw roedd yn disgwyl y dylent barhau yn y dyfodol agos lle bo angen. Yn y cyfamser, byddai'r trefniadau presennol yn parhau a byddai adborth ar yr asesiad risg yn cael ei ddarparu i'r Aelodau cyn gynted â phosibl.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Ted Palmer yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Carolyn Thomas.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer 2020/21, yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

7. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.51 pm)

.....
Y Cadeirydd